OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 116 (Cy. 30)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

| | |
|---|---|
| *Gofynion sifftio wedi eu bodloni - - - -* | *21 Ionawr 2019* |
| *Gwnaed - - - -* | *24 Ionawr 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *28 Ionawr 2019* |

*Coming into force in accordance with regulation 1*

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**) (sy'n ymwneud â'r weithdrefn graffu briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 11 o'r Ddeddf honno, a pharagraff 1(1) o Atodlen 2 iddi.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 a deuant i rym ar y diwrnod ymadael(**2**).

### Diwygio Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori) (Cymru) 2004

**2.** Yn rheoliad 2 (dehongli) o Reoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori) (Cymru) 2004(**3**), ym mharagraff (1), yn y diffiniad o "hysbysiad cyhoeddus", yn lle'r geiriau o "a gyhoeddir" hyd at y diwedd rhodder "a gyhoeddir, yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015(**4**), ar wasanaeth e-hysbysu'r DU (fel y'i diffinnir gan y Rheoliadau hynny)"(**5**).

(**1**) 2018 p. 16.
(**2**) Mae "exit day" wedi ei ddiffinio yn adran 20(1) i (5) (dehongli) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.
(**3**) O.S. 2004/684 (Cy. 72).
(**4**) O.S. 2015/102
(**5**) The Public Contracts Regulations 2015, yn cael eu diwygio gan The Public Procurement (Amendment etc) (EU Exit) Regulations 2019, i fewnosod y diffiniad o wasanaeth hysbysiad e-bost y DU yn rheoliad 5.

*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

24 Ionawr 2019

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 11 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), a pharagraff 1(1) o Atodlen 2 iddi, er mwyn ymdrin â methiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r diffiniad o "hysbysiad cyhoeddus" yn Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori) (Cymru) 2004.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.